Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

14 Mawrth/March, 2014

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar ddydd Iau, 20 Mawrth 2014 am 10.00 a.m., yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on Thursday, 20 March, 2014 at 10.00 a.m., at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i’w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2014.

**3** **ADOLYGU SWYDDOGAETH A DULLIAU GWEITHREDU** (Tudalennau 3 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â’r uchod.

# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>Mr. A M Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Mri. R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, D R Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, H E Jones, R Ll Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, Raymond Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers and Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEUR-IADAU:** | Y Mri. Lewis Davies, T Ll Hughes, W T Hughes, R.Meirion Jones, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms. Caroline Baker (Cyfarwyddwr) DTZ,<br>Mr. Anthony O'Keefe (Cyfarwyddwr) DTZ,<br>Ms. Heather Standidge (Uwch Ymgynghorydd) DTZ. |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i gynrychiolwyr o DTZ i'r cyfarfod.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2013.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON DRAFFT 2012/13**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2012/2013.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon bellach wedi eu cwblhau a'u bod yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol ar gyfer eu mabwysiadu. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau o bwys yn fformat neu gynnwys y cyfrifon eleni.

Codwyd y materion isod gan aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol :-

- Yr angen i ymchwilio i strategaeth wario'r Ymddiriedolaeth Elusennol oherwydd bod y difidendau o'r portffolio yn uwch na'r meincnod o £400k ar gyfer yr incwm buddsoddi blynyddol;

- Yr angen i sicrhau fod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cael ei diogelu yn wyneb y posibilrwydd y bydd awdurdodau lleol yn cyfuno. Dywedir yn glir yng nghanllawiau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei bod er budd trigolion yr Ynys;
- Yr angen i ymchwilio ar frys i'r modd y gweinyddir yr Ymddiriedolaeth;
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r cyfraniad a roddir i Oriel Ynys Môn bob blwyddyn o'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2012/2013 a rhoi'r awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd lofnodi'r fersiwn derfynol;**
- **Bod pob un o Is-Bwyllgorau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn trafod strategaeth wario'r Ymddiriedolaeth ac yn adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolaeth lawn ym mis Ebrill;**
- **Ymchwilio ar frys i'r modd y byddir yn gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.**

**4 EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT – YSTYRIED ARGYMHELLIAD YR YMGYNGHORWYR ALLANOL MEWN PERTHYNAS Â CHAEL GWARED AR SAFLE RHOSGOCH**

Rhoes cynrychiolwyr o DTZ gyflwyniad ar yr opsiynau a'r dadansoddiad safle o Safle Rhosgoch. Nodwyd y gellid defnyddio'r safle i nifer o bwrpasau cydnaws ar yr un pryd ac efallai na fyddai gwerthu'r safle yn golygu y byddai'n cael ei ddatblygu ar unwaith. Y cyngor a gafwyd gan y Cwmni oedd y dylid ystyried cael Adroddiad Llygredd i gynorthwyo'r broses drafod ac er mwyn gwneud y safle'n fwy deniadol i brynwyr posibl.

Nodwyd y bydd DTZ yn paratoi adroddiad yn y man a fydd yn cynnwys sylwadau Aelodau'r Ymddiriedolaeth.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD :-**

- **Comisiynu Adroddiad Llygredd drwy broses dendro ac mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn;**

- **Rhoi'r awdurdod i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth, i ddelio gyda materion o ddydd i ddydd yn ystod y broses farchnata. Fodd bynnag, bydd unrhyw fwriad i werthu'r safle'n cael ei drafod mewn cyfarfod llawn o'r Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**MR. T. VICTOR HUGHES**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **20 MAWRTH 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU SWYDDOGAETH A DULLIAU GWEITHREDU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Parhau'r drafodaeth ynglŷn â'r adolygiad o swyddogaeth a dulliau gweithredu'r Ymddiriedolaeth** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **YSGRIFENNYDD YR YMDDIRIEDOLAETH** |
| **GWEITHREDU:** | **Gofynnir i'r Ymddiriedolaeth, drwy ei Bwyllgorau, drafod ac adolygu eu swyddogaethau a'u dulliau gweithredu o ran hyrwyddo buddiannau cymunedau Ynys Môn yn unol ag amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth** |

## ADOLYGU SWYDDOGAETH A DULLIAU GWEITHREDU

1. Yn dilyn Etholiadau Cyngor Sir Ynys Môn ym Mai 2013, penodwyd 12 o aelodau newydd i'r Ymddiriedolaeth i gymryd lle aelodau blaenorol, tra ar yr un pryd cafwyd gostyngiad o 40 i 30 yng nghyfanswm yr holl aelodau. Bu'r cyfnod ers hynny yn gyfle i anwytho'r aelodau newydd i waith yr Ymddiriedolaeth a'u galluogi i ddeall y gweithdrefnau a'r swyddogaethau er mwyn bod mewn sefyllfa i ffurfio barn ac i gyfrannu i'r drafodaeth ar addasrwydd yr Ymddiriedolaeth i gyfarfod â gofynion dinasyddion Môn a'i chymunedau at y dyfodol.

2. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi penderfynu mewn egwyddor fod angen edrych ar gyfansoddiad y corff a'i pherthynas hefo'r Cyngor Sir gyda golwg ar:

   i) lleihau dibyniaeth ar y Cyngor o ran gweinyddiaeth ac arweiniad strategol a phroffesiynol;

   ii) diogelu cyfalaf yr Ymddiriedolaeth er budd yr Ynys os bydd strwythurau llywodraeth leol yn cael eu newid a'u hail-drefnu at y dyfodol.

Cafwyd cyngor proffesiynol arbenigol gan gyfreithwyr allanol ar y materion hyn a bwriedir cael arweiniad pellach pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn gwbl glir ynglŷn â'r cyfeiriad strategol y mae'n dymuno ei fabwysiadu i'r dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth y gyfraith Elusennol a'r angen i gydymffurfio'n llawn â Chanllawiau'r Comisiwn Elusennol.

3. Yn dilyn cyflwyno trosolwg cyffredinol yn y cyfarfod o ofynion cyfansoddiadol ac amcanion yr Elusen gan yr Ysgrifennydd a'r Cyfreithiwr, ynghyd â gwybodaeth am y strwythur a'r proffil cyllidol gan y Trysorydd, gofynnir i'r aelodau yn y cyfarfod gynnal trafodaeth yn y Pwyllgorau y penodwyd hwy i fod yn aelodau ohonynt, ar ffurf adolygiad o addasrwydd i bwrpas y Pwyllgorau rheini at y dyfodol, a beth fyddai goblygiadau newid cyfansoddiad, swyddogaeth a pholisïau'r Ymddiriedolaeth i'r Pwyllgorau perthnasol at y dyfodol.

Yn dilyn hynny, ceisir cywain barn yr aelodau ar lefel yr Ymddiriedolaeth gyfan er mwyn darparu arweiniad i'r swyddogion i barhau i gwblhau'r adolygiad ac i ddod a'r aelodau, maes o law, i sefyllfa lle y gallant, yn amodol i ddilyn cyfarwyddyd cyfreithiol arbenigol pellach, ffurfio eu penderfyniadau polisi ar gyfer gweithrediad yr Ymddiriedolaeth at y dyfodol.

4. Wrth wneud hynny bydd yr aelodau yn cadw mewn cof ddatblygiadau cyfredol agweddau ar fuddiant cymunedol gwirfoddol fydd yn berthnasol i Ynys Môn yn codi o'r rhaglenni i adfywio economi'r Ynys a gwella ansawdd bywyd y dinasyddion yn y blynyddoedd i ddod.

Bydd yr aelodau yn ystyried unrhyw oblygiadau fydd gan Bolisi Buddiant Cymunedol y Cyngor Sir [fel y'i cyflwynwyd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 17 Mawrth 2014] i waith, swyddogaeth ac amcanion yr Ymddiriedolaeth. Yn y cyd-destun hwn gofynnir i'r aelodau ystyried a yw'n ddymuniad i gyfyngu swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth i'w amcanion gwreiddiol, sef rheoli'r gwaddol cyfalaf a dderbyniwyd gan Gwmni Shell UK a'i ddefnyddio at ddibenion elusennol o fewn y cymunedau, neu ehangu'r swyddogaeth i weithredu adnoddau buddiant cymunedol lletach. [Byddai angen arweiniad cyfreithiol arbenigol i fynd i'r cyfeiriad hwn o ran y newidiadau cyfansoddiadol].

Byddent hefyd yn ystyried a oes dymuniad i newid strwythur yr aelodau o'r Ymddiriedolaeth, er enghraifft, i gynnwys unigolion fyddai'n cryfhau'r cyswllt â'r cymunedau neu yn ychwanegu at yr arbenigeddau fyddai ar gael i hyrwyddo gwaith a phwrpas yr Elusen.

O newid natur yr aelodaeth bydd angen rhoi ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng aelodau wedi eu penodi o'r Cyngor ac aelodau eraill ynghyd â'r prosesau recriwtio'r aelodau rheini.

5. O ran yr agweddau ariannol, mynegwyd barn eisoes gan rai aelodau fod angen adolygu'r defnydd a wneir o'r llogau ar y buddsoddiadau cyfalaf i ryddhau rhagor o adnoddau er mwyn cefnogi gweithgareddau neu ddarpariaethau yn y cymunedau at y dyfodol. Byddai angen, o fynd i'r cyfeiriad hwn, i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn gweithredu o fewn yr amcanion elusennol mewn perthynas â'i gyfraniadau cyllidol, ynghyd â sicrhau fod ganddi feini prawf cadarn ar gyfer y penderfyniadau a wneir wrth ymateb i geisiadau am grantiau.

6. Yn olaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu mewn egwyddor y dylid ystyried gwahanu gweinyddiaeth yr Elusen oddi wrth y Cyngor Sir sydd, ar hyn o bryd yn ei chefnogi drwy ddarpariaeth broffesiynol a gweithredol yn ddi-dâl. O sefydlu trefn weinyddol ar wahân byddai angen ystyried beth fyddai'n fanteisiol i'r Ymddiriedolaeth yn ariannol ac yn weithredol, naill ai pwrcasu cefnogaeth weinyddol gan gorff allanol yn y sector breifat neu wirfoddol, neu darparu ei gweinyddiaeth ei hun drwy gyflogi staff yn uniongyrchol.

   Y math o wasanaethau fyddai ei angen yw ysgrifenyddiaeth, cyngor cyfreithiol, gwasanaethau ariannol [cynllunio cyllideb, cyflogres, taliadau, archwilio] a gwasanaethau clercio / gweinyddol. Byddai angen cyllido darpariaeth o'r fath o arian refeniw'r Ymddiriedolaeth a mesur effaith hynny ar gyfanswm y nawdd a'r grant fydd ar gael i gefnogi cynlluniau cymunedol.

7. Gofynnir, felly, i'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys yr adroddiad hwn fel sail i drafodaeth ar lefel ei Bwyllgorau er mwyn cyflwyno safbwyntiau i'r Ymddiriedolaeth ei hun o ran gosod cyfeiriad strategol cadarn fydd yn llywodraethu rhaglen waith y swyddogion dros yr wythnosau nesaf.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i aelodau'r Ymddiriedolaeth drafod y materion a godir yn yr adroddiad a gosod cyfeiriad clir i'r swyddogion ar gyfer cyflwyno argymhellion polisi yng nghyd-destun adolygu swyddogaeth a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth at y dyfodol.

**Richard Parry Jones** **12 Mawrth 2014**
**Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth**

**ATODIAD A**

## ADOLYGU GWAITH Y PWYLLGORAU

**Amcanion**

i) Adolygu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgorau dros y blynyddoedd diweddar;

ii) Ystyried a yw gweithdrefnau'r Pwyllgorau yn addas i bwrpas yng nghyd-destun y gofynion at y dyfodol;

iii) Derbyn barn y Pwyllgor am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol.

**1. Pwyllgor Buddsoddi a Contractau - Swyddog Arweiniol: Clare J Williams**

Materion i'w ystyried:

i) cydbwysedd cyfalaf a refeniw;

ii pwysau ariannol ar yr Ymddiriedolaeth at y dyfodol;

iii) effeithiolrwydd trefniadau contractau;

iv) goblygiadau ehangu rôl yr Ymddiriedolaeth o safbwynt cyllid a buddsoddi;

v) dylanwad aelodau ar y polisi buddsoddi o safbwynt strategaeth;

vi) materion cyffredinol o ran gwneud yr Ymddiriedolaeth yn addas i bwrpas, yn cynnwys goblygiadau newid strwythur aelodau a gwahanu'r weinyddiaeth oddi wrth y Cyngor Sir, i waith y Pwyllgor.

**2. Pwyllgor Adfywio – Swyddog Arweiniol – Dylan Williams**

Materion i'w ystyried:

i) ystyr adfywio yng nghyd-destun amcanion elusennol ar gyfer cymunedau;

ii) y budd i gymunedau Môn dros y blynyddoedd diweddar yn deillio o benderfyniadau'r Pwyllgor;

iii) y disgwyliadau posibl o'r Pwyllgor yng nghyd-destun cyfleoedd i adfywio cymunedau at y dyfodol gan ystyried rhagolygon Grantiau Ewrop o 2015 ymlaen;

iv) materion cyffredinol o ran gwneud yr Ymddiriedolaeth yn addas i bwrpas, yn cynnwys goblygiadau newid y strwythur aelodau a gwahanu'r weinyddiaeth oddi wrth y Cyngor Sir i waith y Pwyllgor.

**3. Pwyllgor Grantiau Cyffredinol – Swyddog Arweiniol – Richard Parry Jones**

Materion i'w ystyried:

i) y projectau a gyllidwyd gan y Pwyllgor dros y blynyddoedd diweddar;

ii) y meini prawf dyrannu grantiau a'r cyrff sydd yn gymwys i'w derbyn;

iii) newidiadau yn nisgwyliadau a gofynion y cymunedau;

iv) cyswllt grantiau'r Ymddiriedolaeth gyda ffynonellau cyllido eraill ar gyfer cymunedau a'r sector gwirfoddol;

v) materion cyffredinol o ran gwneud yr Ymddiriedolaeth yn addas i bwrpas, yn cynnwys goblygiadau newid y strwythur aelodaeth a gwahanu'r weinyddiaeth oddi wrth y Cyngor Sir i waith y Pwyllgor.

This page is intentionally left blank